

Cynllun £10

Mae'r papur £10 newydd yn ymgorffori nodweddion diogelwch datblygedig, a eglurir y tu mewn i'r daflen hon. Hefyd mae nifer o elfennau yn y cynllun sy'n perthyn i Jane Austen.

Gellir gweld portread o Jane Austen ar gefn y papur. Comisiynwyd hwn gan James Edward Austen Leigh (nai Jane Austen) yn 1870, wedi'i addasu o fraslun gwreiddiol a wnaed gan ei chwaer Cassandra Austen yn 1810.

Nesaf at y portread mae darlun o Elizabeth Bennet, cymeriad o *Pride and Prejudice*. Dywedwyd y dyfyniad 'I declare after all there is no enjoyment like reading!' gan Miss Bingley yn *Pride and Prejudice*. O dan y ddelwedd hon mae Godmersham Park House, yr ystad oedd yn eiddo i frawd Jane Austen.

Y ddelwedd ffoil dros y ffenestr yw Eglwys Gadeiriol Caer-wynt, ble claddwyd Jane Austen yn 1817, dim ond yn 41 oed. Mae 2017, y flwyddyn mae'r papur yn cael ei lansio, yn nodi 200fed ben-blwydd ei marwolaeth.

Mae'r papur £10 newydd wedi'i brintio ar bolymer — deunydd plastig tenau a hyblyg. Mae oddeutu 15% yn llai na'r papur £10 papur.

Nodwedd gyffyrddadwy

Ar flaen y papur polymer £10 (yr ochr gyda'r print dyrchafedig), mae dau glwstwr o ddotiau dyrchafedig yn y gornel chwith ar y brig. Mae'r nodwedd gyffyrddadwy hon yn helpu pobl ddall a rhannol ddall i nodi gwerth y papur.

Hefyd bydd gan yr £20 polymer nodwedd gyffyrddadwy, ond gyda phatrwm gwahanol. Gellir nodi'r £5 polymer fel yr unig bapur polymer heb nodwedd gyffyrddadwy.



Caiff y papur £10 papur ei dynnu'n ôl o gylchrediad yng Ngwanwyn 2018. Rhoddir rhybudd o leiaf 3 mis cyn y dyddiad dynnu'n ôl.

Cyhoeddir y papur £20 polymer newydd, yn cynnwys JMW Turner, yn 2020.

I gael rhagor o wybodaeth

Ffôn: 020 3461 4878

E-bost: enquiries@bankofengland.co.uk

www.thenewten.co.uk

Grŵp Ymholiadau'r Cyhoedd,
Bank of England, Threadneedle Street,
Llundain EC2R 8AH

Mae'r llyfryn hwn ar gael yn Saesneg hefyd.

TNTDL1W



Y Papur £10 Newydd

Dyddiad Cyhoeddi 14 Medi 2017



BANK OF ENGLAND

Y Papur £10 Newydd

Dyddiad Cyhoeddi 14 Medi 2017

Gallwch weld gwybodaeth ar y papur £10 polymer newydd a'i nodweddion diogelwch yn y daflen hon. Mae papurau polymer yn darparu cadernid gwell yn erbyn ffugio ac yn helpu i gynyddu ansawdd y papurau sy'n cylchredeg.



Jane Austen (1775 - 1817)

Roedd Jane Austen yn nofelydd Seisnig a wnaeth, trwy ddefnyddio ffraethineb a sylwadau cymdeithasol, ddarparu cipolygon craff ar fywyd y 19eg ganrif, yn aml yn canmol y rhinweddau rheswm a deallusrwydd ac yn amlygu rhai o'r rhwystrau roedd cymdeithas yn eu cyflwyno yn erbyn cynnydd menywod.

Alla i ddal i ddefnyddio'r papur £10 papur?

Gallwch barhau i ddefnyddio'r papur £10 papur, yn cynnwys Charles Darwin, tan ei fod yn cael ei dynnu'n ôl o gylchrediad yng Ngwanwyn 2018. Rhoddir rhybudd o leiaf 3 mis cyn y dyddiad dynnu'n ôl. Mae papurau banc dilys Bank of England sydd wedi'u tynnu'n ôl o gylchrediad yn cadw eu hwynebwerth am byth a gellir eu cyfnewid yn y Bank of England.

Ewch at:

www.bankofengland.co.uk/banknotes/about/exchanges

Rhestr wirio ar gyfer papurau banc • Nodweddion i chwilio amdanynt ar y papur £10 polymer newydd

Dilynwch y camau syml hyn i ddilysu nodweddion diogelwch eich papur £10 polymer newydd.
Cofiwch, peidiwch â dibynnu ar un nodwedd yn unig, gwiriwch ychydig.

1



Gwiriwch y ffenestr dryloyw

Mae ffenestr dryloyw fawr ar y papur. Mae portread wedi'ddiffinio'n glir o'r Frenhines wedi'i brintio ar y ffenestr gyda'r geiriau '£10 Bank of England' wedi'u printio dwywaith o amgylch y rymyl.

front



back



10



Gwiriwch y nodwedd uwch-foied

Os edrychwch ar flaen y papur o dan olau uwch-foied o ansawdd dda, mae'r rhif 10 yn ymddangos mewn coch a gwyrd dda tra bod y cefndir yn aros yn ddwl mewn cyferbyniad.

2




blaen

cefn

Lleolir delwedd fetelig a fanylir yn gain o Eglwys Gadeiriol Caer-wynt dros y ffenestr. Mae'r ffoil yn aur ar flaen y papur ac arian ar y cefn. Pan wyrir y papur gellir gweld effaith enfys aml-liw.

Mae'r symbol £ ffoil yn y ffenestr yn arian ar flaen y papur ac yn copr ar y cefn.

3



blaen

cefn

Ar ochr y ffenestr mae cwilsyn lliw sy'n newid o borffor i oren pan wyrir y papur. Gellir gweld yr effaith hon ar flaen a chefn y papur.

4



Gwiriwch y darnau ffoil

Ar flaen y papur, o dan y ffenestr dryloyw, mae darn ffoil arian. Pan wyrir y papur mae'r gair 'Deg' yn newid i 'Bunnau' a gellir gweld effaith enfys aml-liw.

5



Ar flaen y papur, uwchben y ffenestr dryloyw, mae darn ffoil arian yn cynnwys delwedd o goron y coroniad sy'n ymddangos mewn 3D. Pan wyrir y papur gellir gweld effaith enfys aml-liw.

6



Ar gefn y papur, mae darn ffoil copr ar siâp llyfr sy'n cynnwys y llythrennau JA. Mae yn union y tu cefn i'r goron arian ar y blaen.

7



Gwiriwch y polymer a'r print dyrchafedig

Mae'r papur wedi'i brintio ar bolymersydd yn ddeunydd plastig tenau a hyblyg. Trwy redeg eich bys ar draws blaen y papur gallwch deimlo print dyrchafedig mewn ardaloedd megis y geiriau 'Bank of England' ac yn y gornel dde ar y gwaelod, o amgylch y rhif 10.

8



clir

aneglur

Gwiriwch ansawdd y print

Mae'r llinellau printiedig a lliwiau ar y papur yn fain, clir ac yn rhydd rhag dwbiadau neu ymylon aneglur.

9



yn agos

wedi'i chwyddu

Gwiriwch y micro-lythrenniad

Gan ddefnyddio chwyddwydr, edrychwch yn agos ar y llythrenniad o dan bortread y Frenhines - byddwch yn gweld gwerth y papur wedi'i ysgrifennu mewn llythrennau a rhifau bach.